Coetir Mynydd

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## Chwefror 2017

e-bost: coetirmynydd@aol.com
www.coetirmynydd.co.uk

Dyma 13eg adroddiad blynyddol Coetir Mynydd, sydd yn ymwneud â'r cyfnod 27 Chwefror 2016 hyd 15 Chwefror 2017.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cyfarwyddwyd busnes y cwmni gan Fwrdd a gynhwysai: Tim Radford (Cadeirydd), Gwen Griffiths (Is-gadeirydd), Jenny Wong (Ysgrifennydd), Bryan Dickinson (Trysorydd Gweithredol), Martin Daws, Sharon Sweeny, Gabe Wyn a Mike Vitkovitch.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

Cynhaliwyd tri chyfarfod llawn o'r Bwrdd yn 2016, gyda llawer o gyfarfodydd o'r aelodau o'r bwrdd a weithiai ar gynnig y cynllun trydan dŵr (Tim Radford, Jenny Wong, Bryan Dickinson a Gabe Wyn).

## Cynnal a Chadw

Yr oedd sawl un o'r coed wedi colli canghennau mawrion a chwpl o goed wedi'u chwythu drosodd. Cawsai'r rhai a oedd wedi syrthio ar draws y llwybr eu torri a'u gwthio o'r neilltu, a chliriwyd canghennau a oedd wedi syrthio i gaeau cyfagos. Llawer o ddiolch i John Sweeny ac i bawb arall a helpodd glirio'r llwybr ar fyr rybudd.

Yr oedd swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd wedi trefnu tîm o wirfoddolwyr i ail-wynebu rhan uchaf y llwybr gyda gwastraff llechi. Erys gwaith adfer i'r bompren i'w wneud.

## Bioamrywiaeth

Ym mis Mehefin, trefnodd Gabe a Martin fore o rwydo mewn pyllau yn Ynys Uchaf ar gyfer disgyblion Ysgol Bodfeurig. Rhannwyd y plant yn ddau griw, un yn rhwydo'r pyllau a'r llall yn ysgrifennu a darlunio eu hymatebion, a chafwyd cryn hwyl.



Cynhaliwyd arolwg Gwylio Adar yr Ardd 2017 ar 28-29ain Ionawr. Fel yn y blynyddoedd cynt, anfonodd pobl eu cofnodion i'w hychwanegu at gofnodion adar Coetir Mynydd ar gyfer y pentref. Erbyn hyn mae Chris ac eraill wedi cadarnhau i'r gwybedogion brithion ddychwelyd i nythu ym Mharc yr Ocar.

Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, gofalodd Bryan, Cai Dickinson a Chris Allen am y dasg flynyddol o chwilio'r pentref am blanhigion y ffromlys chwarennog yn y pentref a'u dinistrio. Daethpwyd o hyd i gwpl o glystyrau newydd, ond er hynny mae llai a llai i'w dynnu bob blwyddyn.

Ar ôl rhyddhau gwiwerod cochion yn agos at ein coetiroedd, gobeithiwn eu gweld yma cyn bo hir.

## Cynllun bychan trydan dŵr

Gydag arian a gafwyd gan Ynni Lleol a chan Cartrefi Cymunedol Gwynedd (Mantell Gwynedd) bu modd ymgymryd â'r arolygon angenrheidiol er mwyn cwblhau'r set gyntaf o ddogfenni i ddisgrifio cynllun trydan dŵr posibl ar y Galedffrwd. Yr arolygon a wnaed oedd:

- Arolwg cŵn dŵr
- Arolwg Ystlumod
- Mapio cynefinoedd
- Bryoffytau (mwsoglau)
- Arolwg archeolegol
- Arolwg coed
- Effeithiau cyffredinol ar fioamrywiaeth

Cyflwynir canlyniadau'r arolygon hyn a gosodiad y cynllun i'r gymuned ar gyfer sylwadau ar y 26ain Chwefror 2017.

## Parc y Bwlch

Bu rhagor o drafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch cyfraniad y gymuned i'r cynllun Adnoddau ar gyfer y goedwig gonwydd. Lluniwyd cynlluniau i fyfyrwyr o Brifysgol Bangor a Choleg Glynllifon helpu gydag arolygon o goed ac o lwybrau tynnu coed ar gyfer gweithrediadau ar raddfa lai yn rhan isaf y goedwig.

## Adroddiad y Trysorydd

Bydd adroddiad manwl ar wahân ar gael yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Yr oedd banc y Co-op wedi gofyn am wybodaeth sylweddol gan fwrdd Coetir Mynydd er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol newydd ar gyfer cyfrifon grwpiau. Erbyn hyn, ar ôl bron 12 mis, fe gwblhawyd hyn.